

# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 4ydd o Ebrill, 2019 yn brydlon am 7:00 y.h. yn

## Neuadd Llanystumdwy

1. Ymddiheuriadau.
2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 7fed o Fawrth 2019.
3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Mawrth gan y Cadeirydd.
4. Materion yn codi o'r cofnodion.  
Ar y rhaglen.
5. Datgan buddiant personol.
6. Cyngor Gwynedd.
  - i) Adran Amgylchedd, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad;  
**Cyfyngiadau Parcio** Arfaethedig ger tai Glanywern, Chwilog. **Mae'r llinellau melyn wedi cael ei peintio ar y safle rwan.**
  - ii) **Gorchymyn Cyfyngiad Cyflymder** Cyngor Gwynedd - 40 milltir yr awr yn dod i rym 25.02.19 - Ffordd Dosbarth 2 B4354 - o'r 30 milltir yr awr presennol ger Fferm Brynhyfryd, Chwilog, i gyfeiriad y gogledd-orllewin am bellter o 414 metr. **Y Clerc yn disgwyl diweddariad cyn ein cyfarfod.**
  - iii) Cau'r ffordd Dosbarth III gyferbyn â Ty'n Llan ac Eglwys Sant Garmon, Llanarmon. Gwaharddiad trafniadaeth trwodd dros dro, o'r 18.03.19 am 2/3 diwrnod er mwyn galluogi i Beirianwyr Openreach gael mynediad brys i adfer gwasanaeth cwsmer cyfagos.

7. **Cefnogaeth ariannu ar gael yn 2019/20** - canllaw a ffurflen gais sy'n ymwneud â chefnogaeth Llywodraeth Cymru, sydd ar gael yn 2019-20. Mae ar gyfer sefydlu cyd-drefniadau ar gyfer pedair thema craidd, sef **ymgysylltu â'r gymuned, cynyddu cyfranogiad dinasyddion ac ymgysylltu â democratiaeth leol, a gweithio ar y cyd i ddarparu gwasanaethau.**

Mae thema gweithio ar y cyd i ddarparu gwasanaethau wedi'i ehangu yn 2019-20 i gynnwys **ystyried sgôp rhannu swyddogaethau cefn swyddfa.** Nodwch mai'r dyddiad cau cyflwyno ffurflenni cais yw dydd Gwener **12 Ebrill 2019.**

### **8. Cyngor Gwynedd - ceisiadau cynllunio yn y gymuned**

- a. Cais Rhif C19/0291/41/LL - Estyniad cefn: 22, Ty'n Rhos, Chwilog.

b. Cais Rhif C19/0300/41/LL - Cais llawn i godi ty preswyl ynghyd a gwaith cysylltiol -Lleoliad: Stad Cae Capel, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd.

9. Lwfansau Cynghorydd am Ebrill 2018 – Mawrth 2019, un Cynghorydd heb lofnodi.

#### 10. Materion yn y gymuned.

##### Llanarmon

##### Llanystumdwy

##### Mainc ar y llwybr o Lanystumdwy i Gricieth ger Lodge Ynysgain.

Y Clerc wedi cysylltu hefo Mr Dave Smith, Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac wedi ei hysbysu ein bod yn ffafrio'r safle ger y coed. Mae wedi cadarnhau, y bydd yn iawn i ni osod y fainc yn y lleoliad yma, y byddai'n rhaid i ni gytuno ar unrhyw waith y byddai'n digwydd ar ei tir, ond nad oes angen cytundeb ffurfiol. Mae hefyd wedi cytuno i ni osod mainc ddur, fel ag y cytunwyd yn ein cyfarfod diwethaf, gan gwmni David Ogilvy Engineering, sef mainc Anti-Vandal KC mewn lliw du.

Mae dau faint ar gael,

1500 mm mewn hyd yn £645.00 + TAW (4" a 11 modfedd)

1800 mm mewn hyd yn £693.00 + TAW (5.9" a 10 modfedd)

'Bolt down kit to secure bench to a hard standing' - £9.50 + TAW

Pris ar gyfer danfon yw

1 mainc - £145.00 + TAW

2 fainc - £190.00 + TAW

Dyma yw'r disgrifiad am y fainc:-

*"we manufacture all from steel, hot dip galvanize for weather and corrosion protection, then wet paint in our 2-pack acrylic paint system in your colour of choice. They are virtually vandal proof, maintenance free and come with our 25-year guarantee. All our products are CE and ISO 9001 certified".*

Y Clerc hefyd wedi cysylltu hefo Mr David Merfyn Griffith, Archwiliwr Gwaith Gofal a Stryd Dwyfor, sydd wedi cadarnhau nad oedd ganddo wrthwynebiad i'r lleoliad ger y coed, cyn belled a bod mwy na 1.2 metr o le pasio yn cael ei adael i ddefnyddwyr y llwybr. Roedd hefyd yn dweud os oeddem yn meddwl tyllu i fewn i'r wal mi fyddai hyn yn gwneud siwr bod y fainc ddigon pell oddi wrth y llwybr.

Y Clerc hefyd wedi anfon ffurflen S115 ar gyfer y ddwy fainc, i Cyngor Gwynedd er mwyn cael y drwydded i'w gosod.

**Angen penderfynu pwy contractor sydd yn mynd i wneud y gwaith yn Llanystumdwy, er mwyn trefnu i Dave Smith a Merfyn Griffith fod yno i drafod beth sydd angen ei wneud. Yna, bydd angen trefnu i gael rheolaeth traffig yno tra fydd y gwaith yn cael ei wneud.**

- Rhoslan /Ynys

##### Chwilog

- Mainc newydd yng nghanol Chwilog. Parhau i aros penderfyniad ynglyn â mainc Llanystumdwy er mwyn delio hefo'r ddwy ar yr un adeg. Y Clerc wedi cwblhau'r ffurflen gais S115.

- Safle bws ym Mhenygroes Llanystumdwy ar draws y lon i'r garej. Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn am roi arwydd 'safle bws' a llinellau melyn. Llythyr wedi ei dderbyn gan Mr Iwan ap Trefor, Uwch Beiriannydd Traffig yn dweud nad oedd y safle yn addas o ran diogelwch i roi safle bws. Dywedodd:-

*"Yn ystod y gwaith adeiladu'r A497 cafwyd nifer o drafodaethau mewn perthynas â'r mater. Y farn ar yr adeg oedd ni ddylai'r lleoliad yma cael ei neilltuo fel safle bws oherwydd pryderon diogelwch. O ganlyniad i hyn crëwyd safle bws ar y B4354 ar ôl y gyffordd gyda'r A497".*

- Bin baw cwn – cais i gael bin yng ngheg Lon y Fynwent. Bagiau baw cwn yn cael ei rhoi ym miniau'r fynwent sy'n peri gofid a nid oes bin baw cwn arall yn ymyl. Y Clerc wedi anfon llythyr i Cyngor Gwynedd, ac wedi trafod y mater hefo Mr Alan Hughes, Warden Gorfodaeth Stryd. Roedd yn dweud fod eu cyllid ar gyfer gwasanaethu biniau baw ci wedi cael ei wario ac felly byddai'n rhaid i bob cais gael ei gysidro'n ofalus cyn ei cyfiawnhau. Fe wnaeth holi tybed a fyddai'r Cyngor Cymuned yn fodlon talu i'w wasanaethu, sef tua £3.50 i'w wagio bob tro?

Y Clerc wedi cysylltu hefo Mr Peter Simpson ei Uwch Reolwr, ac nid yw wedi ymateb eto.

Safle bws Maes Myrddin, Chwilog- y Clerc wedi cysylltu hefo'r Cadeirydd ar ol sylwi fod darn pren o'r safle bws, ar y gongl yn gwynebu'r lon fawr, yn hongian i lawr, ac angen ei drwsio -roedd y gwydr hefyd yn edrych fel pebyddai yn syrthio. Cytunwyd i gysylltu â Mr D.E. Williams, Llithfaen sydd yn arfer ei trwsio, i wneud y gwaith, rhag ofn iddo falu'n waeth, neu greu damwain. **Mae'r gwaith wedi cael ei wneud.**

Swyddfa Bost – y Clerc wedi ysgrifennu atynt yn holi pam fod y swyddfa bost ar gau ambell ddiwrnod, ac wedi cau am wythnos un tro. Nodwyd fod hyn yn creu cryn anhwylostod i'r cyhoedd, sydd yn dibynnu ar y gwasanaeth yn y pentref. **Heb dderbyn ateb eto.**

### Pencaenewydd/Sardis

Y lon rhwng Drofa, at Tan Llyn, Pencaenewydd, - cwynion wedi cael ei derbyn yn dweud fod yna nifer o goed peryglus ar hyd y lon, a bod un goeden wedi torri, ond heb ddisgyn eto.

Dywedwyd hefyd fod llawer o 'fwd' ar hyd ochrau'r lon yma, a gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau i drefnu glanhau'r lon. **Y Clerc wedi anfon cais i'r Adran Priffyrdd, ac yn disgwyl ymateb.**

### Llangybi

- Llwybrau Pont Merchaid a Garn Pentyrch – Clerc wedi anfon e-bost at Mr Dewi Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, i ddweud mai y farn gyffredinol oedd gobeithio cael trefn ar **Lwybr Pont y Merchaid**, gyntaf, a hynny'n weddol fuan, ac mai rhywbeth ychwanegol i'r dyfodol fyddai yr un ger Pentyrch Isaf/Maenllwyd.

Nodwyd hefyd y byddai cynnal unrhyw waith ar Lwybr Pont y Merchaid yn gaffaeliad mawr pe byddai modd ei gael yn barod cyn yr haf yma, ac nid oeddent eisiau i'r llwybr arall fod yn reswm i ddal y mater yma'n nol. Y Clerc heb gael ateb eto, ond yn gobeithio y bydd wedi cyrraedd erbyn yn cyfarfod.

## 11. Gwaith ar y llwybrau, Ebrill 2019 ymlaen.

- a. Llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad.
- b. Llwybr dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad.
- c. Llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad.
- ch. Llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad.
- d. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad.
- dd. Ceg y llwybr ar hen ffordd Abercin, ochr y pentref i'r ffordd osgoi.
- e. Cadw safle bedd D Lloyd George yn daclus yn ystod y tymor.
- f. Cytundeb torri Cae Chwarae Llanybi (*cytundeb wedi ei wneud llynnedd am 3 mlynedd o 2018*).

## Materion Ariannol

12. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

### O Ddrws i Drws

Cais am ariannu cynllun i ddanfôn pobl i'r feddygfa leol. Petai O Ddrws i Ddrws yn derbyn swm o £500 gan y Cyngor, am flwyddyn gyfan, bydden nhw wedyn yn gallu cludo pobl i'r feddygfa. Bydden nhw wedyn yn gofyn i'r teithiwr am, tua £2 y pen. Yn ystod y flwyddyn beilot byddent yn cadw cofnod o rif y defnyddwyr, unrhyw broblemau, neu unrhyw beth allent ei wneud yn well. Byddent hefyd yn gwybod erbyn diwedd y flwyddyn, faint yw cost gwirioneddol gwneud hyn - gallai fod yn llai neu'n fwy.

Byddai pobl yn ffonio O Ddrws i Ddrws (gan roi 24 awr o rybudd os yn bosib) a byddai O Ddrws i Ddrws yn eu danfôn a dod a nhw adre. **Angen penderfyniad.**

### Delwedd

O Ebrill 2019, mae codiad o 2% yn y costau cynhaliaeth.

Golyga hyn godiad o £25.99 y cynhaliaeth flynyddol, sy'n gweithio allan fel £2.16 y mis yn ychwanegol. Roedd pris Delwedd llynnedd yn £462.47.

**Angen penderfyniad.**

**Archwiliad Mewnol Cyfrifon 2018-19** – wedi derbyn ffurflen i'w chwblhau, ac angen cysylltu hefo Ms Luned Fón Jones, Rheolwr Archwilio, Cyngor Gwynedd i'w hysbysu o pryd fydd y cyfrifon a'r dogfennau perthnasol yn barod ar gyfer cael ei archwilio. Bydd angen cael y cyfrifon yn barod erbyn y cyfarfod blynyddol ar 2 o Fai 2019.

### **Bil Swyddfa Archwilio Cymru.**

Derbyniwyd ateb gan Mr Deryck Evans, Rheolwr Tîm Technegol, Llywodraeth Leol, Swyddfa Archwilio Cymru ar 26.03.19 yn dweud fod y bil yn gywir, ond ei bod wedi codi £4.00 yn ormod arnom am archwiliad 2017/2018, a bod y swm hwnnw'n mynd i gael ei roi fel credyd ar y bil cyfredol.

Dyma ddarn o'r e-bost oedd yn rhoi y rheswm am am y cynnydd yn y bil:-

“Bydd y ffi archwilio yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn gan ddibynnu ar faint o waith y mae'n rhaid i'r archwilwyr ei wneud. Bydd hyn yn cynnwys amser ychwanegol a fydd ei angen i baratoi gohebiaeth ac ymatebion adolygiad a/neu baratoi barnau amodol ac adroddiadau archwilio ar gyfer cynghorau. Ar gyfer archwiliad 2017-18, nododd BDO nifer bach o faterion a bu'n rhaid iddynt gysylltu â chi i gael eglurhad yn eu cylch. Roedd y rhain yn cynnwys eglurhad o ddibenion

cronfeydd wrth gefn. Gwnaeth BDO gais am yr wybodaeth hon wrth anfon y pecyn archwilio cychwynnol atoch. Nododd BDO hefyd nad oedd y Cyngor wedi defnyddio ei bwerau statudol yn briodol ac adroddwyd am hyn i'r cyngor.

Oherwydd graddfa fechan y cyngor a'r amser a gymerodd y gwaith archwilio craidd, gall gwaith ychwanegol o'r fath arwain at ganran sylweddol o gynnydd i'r ffi archwilio. Er hynny, mae'r cynnydd gwirioneddol i'r ffi yn fach mewn termau absoliwt."

Felly, fe gysylltodd y Clerc hefo'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i weld beth oedd ei barn ar y mater, ac fe benderfynwyd talu fel a ganlyn, oherwydd ei bod yn ddiwedd y flwyddyn ariannol ar 31.03.19:-

£

393.75 - Bil llawn

150.00 - llai siec wnaed ar 3ydd Ionawr 2019 (100998)

4.00 - credyd o flwyddyn 2017/18

**239.75** - Balans i'w dalu drwy BACS

18. Anfonebau angen eu talu:

Enw	Rheswm	Pris £	TAW £	Cyfanswm £	Taliad BACS
Swyddfa Archwilio Cymru	Archwilio allannol	393.75		Wedi gwneud taliad siec am £150.00 fis 03.01.19,(siec rhif 100998)  Llai credyd o £4.00 o fil 2017/18 Balans o <b><u>239.75 ar ol</u></b>	<i>BACS- talwyd 31.03.19 gyda chaniatad y Cadeirydd a'r Is- gadeirydd</i>
Cymdeithas Adloniant Pencaenewydd	Wifi	247.72 (cynnwys costau gosod a mis cyntaf tan 28.02.19)		247.72	BACS Cyfrif budd cymunedol
Capel Pencaenewydd	3 cyfarfod 6.12.18 / 03.01.19 07.02.19	45.00	-	45.00	BACS
D.E.Williams, Encil y Coed,	Atgyweirio lloches bws Chwilog	50.00	10.00	60.00 (rhif 1205)	BACS

Cyflog mis Mawrth 2019 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM

<b>Enw/Rheswm</b>	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad siec rhif:-
Cyflog sylfaenol y Clerc, Mawrth 2019 35 awr x £9.808 =	343.28-llai treth £68.60	<b><u>274.68</u></b>	101118
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Mawrth 2019	343.00 x 20% = £68.60	<b><u>68.60</u></b>	101119
Costau'r Clerc Mawrth 2019	£16.61	<b><u>16.61</u></b>	101120

It is possible to get an English translation, please contact the Clerk